# Ordinhad 4:

# Y Cyngor: Aelod a Enwebir gan y Staff Academaidd

| | |
|---|---|
| **Y Corff Cymeradwyo:** | Y Cyngor |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | 28 Ionawr 2022 |
| **Perchennog y Polisi:** | Ysgrifennydd y Brifysgol |
| **Swyddog Polisi:** | Dirprwy Ysgrifennydd |
| **Statws y Polisi:** | Diwygiedig |
| **Fersiwn:** | 2.0 |
| **Dyddiad adolygu:** | Ionawr 2025 |

# Ordinhad 4:
# Y Cyngor: Aelod a Enwebir gan y Staff Academaidd

1. Yn unol ag adran 9.3 y Siarter, penodir yr aelod a enwebir gan y Staff Academaidd i'r Cyngor fel a ganlyn.

2. Cyfnod arferol cynrychiolydd y staff academaidd mewn swydd ar y Cyngor fydd tair blynedd. Mae'r unigolyn yn gymwys i'w ailbenodi fel arfer am un cyfnod arall hyd at dair blynedd. Ni fydd unrhyw ailbenodi awtomatig a dilynir y broses a amlinellir yn Adran 3 isod pe bai'r aelod presennol yn dymuno sefyll am ail dymor, gan gynnwys proses etholiadol os yw'n berthnasol. Bydd unrhyw unigolyn sy’n llwyddo i gael ail dymor yn anghymwys i'w hailethol eto yn yr un categori aelodaeth nes bydd cyfnod o dair blynedd wedi mynd heibio.

3. <u>Proses Penodi</u>

    a. Pan fo sedd yng nghynrychiolaeth y Staff Academaidd ar fin dod yn wag, bydd Ysgrifennydd y Cyngor yn hysbysu holl aelodau'r Staff Academaidd sy'n gyflogedig ar y pryd o hynny ac yn galw am enwebiadau.

    b. Bydd cynigydd ac eilydd yn llofnodi pob enwebiad a anfonir at Ysgrifennydd y Cyngor, a chyda phob enwebiad, anfonir datganiad gan yr ymgeisydd neu ar ei ran ef/ei rhan hi, ynglŷn â pharodrwydd i wasanaethu.

    c. Os ceir mwy nag un enwebiad, bydd yr Ysgrifennydd yn trefnu cynnal pleidlais o blith pawb a wahoddwyd i gyflwyno enwebiadau, a bydd yr ymgeisydd sy'n derbyn y nifer uchaf o bleidleisiau yn llenwi'r sedd wag.

    d. Ni fydd unrhyw aelod o'r Pwyllgor Gweithredu, fel y nodir yn Ordinhad 16, yn gymwys i'w enwebu/ei henwebu.

4. Bydd Ysgrifennydd y Cyngor yn cyhoeddi canlyniadau'r etholiad.

5. Ysgrifennydd y Cyngor fydd yn penderfynu ar ddull yr etholiad, ac eithrio'r hyn a ddarperir yma.

6. Os daw unrhyw sedd yn wag o dan amgylchiadau heblaw'r drefn reolaidd, llenwir hi trwy ddull tebyg i'r uchod. Bydd y sawl a benodir i lenwi sedd a ddaw'n wag dros dro yn gwasanaethu am yr hyn sy'n weddill o'r cyfnod.